# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## HSC(4)-12-11 papur 3

**At:** Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Oddi wrth:** Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

**Dyddiad:** Tachwedd 2011

**DEISEB AR Y DDARPARIAETH O DOILEDAU CYHOEDDUS YNG NGHYMRU – YSTYRIED DULL Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL O WEITHREDU**

**Cefndir**

1. Yn ei gyfarfod ar 12 Hydref, cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gynnal sesiwn dystiolaeth lafar ar y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn dilyn cyfeirio deiseb ar y pwnc hwn o'r Pwyllgor Deisebau (P-03-292) yn ystod mis Gorffennaf 2011.

2. Cytunodd y Pwyllgor i drefnu sesiwn ar ôl toriad y Nadolig i ystyried y materion iechyd cyhoeddus a godwyd yn y ddeiseb, yn benodol goblygiadau iechyd cyhoeddus yr honiad bod diffyg cyfleusterau toiledau cyhoeddus.

3. Er mwyn hysbysu ei waith, awgrymir bod y Pwyllgor yn cynnal ymgynghoriad ysgrifenedig byr, â ffocws, cyn y sesiwn dystiolaeth lafar sydd i'w threfnu ym mis Ionawr 2012. Amlinellir manylion hyn yn y papur hwn.

**Diben**

4. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a chytuno ar y canlynol: y cwestiynau a ofynnir fel rhan o'r ymgynghoriad ysgrifenedig; rhestr ddrafft o ymgyngoreion; ac amserlen arfaethedig ar gyfer y gwaith.

*Tystiolaeth ysgrifenedig: cwestiynau allweddol*

5. Cynigir bod y Pwyllgor yn ceisio barn ysgrifenedig partïon â diddordeb ynghylch y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yng Nghymru. Awgrymir bod yr ymgynghoriad ysgrifenedig yn:

- canolbwyntio ar oblygiadau iechyd cyhoeddus diffyg honedig yn y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus;
- esbonio'n glir na all y Pwyllgor wneud sylwadau penodol ar ddyletswydd awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau, gan nad yw hynny'n rhan uniongyrchol o gylch gwaith y Pwyllgor.

6. Atodir rhestr o ymgyngoreion ar gyfer yr ymgynghoriad ysgrifenedig â ffocws yn Atodiad A i'r papur hwn.

7. Dyma gwestiynau yr awgrymir eu gofyn fel rhan o'r ymgynghoriad:

   - Beth yw effeithiau darpariaeth o doiledau cyhoeddus (neu ddiffyg darpariaeth o'r fath) ar iechyd a lles cymdeithasol person?

   - A oes tystiolaeth bod pobl yn methu gadael eu cartrefi oherwydd pryderon ynghylch argaeledd toiledau cyhoeddus? Os oes, beth yw goblygiadau hynny o ran iechyd a lles?

   - A oes cydraddoldeb ledled Cymru – ac yng nghyswllt pob person – o ran y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus?
     - Sut dylai cyfleusterau toiledau cyhoeddus ymateb i anghenion grwpiau gwahanol o bobl (dynion, menywod, pobl anabl, pobl ag anghenion iechyd arbennig, plant)?
     - A oes angen arbennig am well cyfleusterau i grwpiau penodol?

   - Pa effeithiau ehangach gallai darpariaeth annigonol o doiledau cyhoeddus eu cael ar iechyd cyhoeddus a'r gymuned? Er enghraifft, mae gohebiaeth a anfonwyd at y Pwyllgor Deisebau yn awgrymu bod perygl o faeddu strydoedd, gyda chlefydau'n ymledu yn sgil hynny.

*Amserlen*

8. Awgrymir yr amserlen ganlynol:

| | |
|---|---|
| 25 Tachwedd 2011 | Cyflwyno ymgynghoriad ysgrifenedig |
| 23 Rhagfyr 2011 | Yr ymgynghoriad ysgrifenedig yn dod i ben |
| Ionawr 2012 | Sesiwn dystiolaeth lafar |

*Tystiolaeth lafar*

9. Tystion a awgrymir ar gyfer y sesiwn dystiolaeth lafar yw:
    - Y Cyng. Louise Hughes (prif ddeisebydd), Age Cymru a Senedd Pobl Hŷn Cymru (yn cefnogi'r ddeiseb);
    - Ymarferwyr iechyd a chynrychiolwyr elusennau'r bledren a'r coluddion; a'r
    - Chris Brereton, Dirprwy Brif Cynghorydd Iechyd yr Amgylchedd, a Dr Sara Hayes fel Dirprwy Brif Swyddog Meddygol (iechyd cyhoeddus) dros dro.

**Gweithredu**

10. Gwahoddir yr Aelodau i drafod a chytuno ar y dull o weithredu a amlinellir yn y papur hwn, gan gynnwys:
    - y cwestiynau allweddol i'w gofyn fel rhan o'r ymgynghoriad ysgrifenedig byr, â ffocws, cyn y sesiwn dystiolaeth lafar (paragraff 7)
    - yr amserlen arfaethedig (paragraff 8)
    - y tystion a gynigir ar gyfer y sesiwn dystiolaeth lafar ym mis Ionawr (paragraff 9)
    - yr ymgyngoreion a gynigir ar gyfer yr ymgynghoriad ysgrifenedig byr â ffocws (Atodiad A)

**ATODIAD A**
**Rhestr o ymgyngoreion ar gyfer yr ymarferiad ymgynghori ysgrifenedig â ffocws**

- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Age Cymru
- Senedd Pobl Hŷn Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyfadran Iechyd y Cyhoedd
- Anabledd Cymru
- Mencap Cymru
- Scope Cymru
- Cymdeithas Toiledau Prydain
- Y Rhwydwaith IBS
- Sefydliad y Bledren a'r Coluddyn
- Cymdeithas Genedlaethol Colitis a Chlefyd Crohn
- Y Gymdeithas Cyngor ar Ymataliaeth
- Fforwm Ymataliaeth Cymru Gyfan
- Cymdeithas Gastroenteroleg Prydain
- Sefydliad Joseph Rowntree
- Comisiynydd Plant Cymru
- Plant yng Nghymru